YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 12. RHAGFYR, 1924. PRIS, 3c.

.. CYNHWYSIAD...

Rhifyn Cofia
i'r diweddar Barch.
Rees Jenkin Jones, M.A.
Aberdar.

PRIODASAU.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argrafwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur Beiblaidd

Y GWAITH PWYSICAF AR Y BEIBL A GYHOEDDWYD YN GYMRAEG. . .

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.

— Pris 1/6 y Rhifyn. —

I'W GAEL O—

Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

—AIL GASGLIAD O—

EMYNAU A THONAU

. . AT WASANAETH . .

Cymanfa Gerddorol Undodaidd Ceredigion.

Pris 9c., Amlen Bapur. Gellir cael Copiau wedi eu rhwymo mewn Llian—*Cloth Binding, 3s. 6c.*

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.



Parch. Rees Jenkin Jones, M.A.

Ganwyd Medi 17, 1835
Bu farw Hydref 15, 1924

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1924-12_24_12

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1924. [CYF. XXIV. RHIF 12.

AR ADEN FFYDD.

"A SAMARIAD OEDD EFE."

(Rhydd-gyfieithiad.)

Fe gofiodd am y weddw dlawd,
Heb dân, nac ymborth yn y ty;
Ac iddi bu yn well na brawd,
Ryw ddydd Nadolig tywyll du;—
Y "weithred ddistaw"—dyna hi
Beth oedd ei gredo?—nis gwn i.

Ei roddion fu fel esmwyth blyf
Yr eira glân sy'n dod i lawr;
Ac nid fel gwaith y corwynt hyf,
A'i ymffrost yn y "twrw" mawr;
Gan wasgar chwyn, a blodau nghyd
Ar hyd ein llwybrau yn y byd.

'Roedd ganddo ffydd mewn dillad clyd
I wella clwyfau'r galon brudd;
Bu gweld yr angen, lawer pryd,
Yn tynnu'r deigryn ar ei rudd;
Erioed ni chadd ei "weld" ar goedd,
A'i gredo—wybu neb beth oedd!

Ni fu'n chwenychu clod a bri,
Gan saint y llawr, na theulu'r nef,
Ond lleddfu poen, a gwrando cri,
Oedd "fwyd a diod" iddo ef,
A rhanu'r gyfran fach o hyd,
Ei bleser pennaf yn y byd.

Ei gariad oedd yn fwy na'i rodd,
A'i galon oedd yn fwy na'i law;
'Roedd estyn cymhorth wrth ei fodd,
A gwelai'r truan oddi draw;
Pob gweithred fach mor nefol lwys—
Beth oedd ei gredo?—dim o bwys!

J. J., Drenewydd.

Y DIWEDDAR BARCH. R. J. JONES, M.A.

NOS Fercher, Hydref 15fed, cyhoeddwyd y newydd trist fod yr Hybarch R. J. Jones, M.A. wedi marw. Er fod ei oedran, 89 mlwydd oed, yn awgrymu fod y diwedd yn agoshau; llesgedd corff a methiant iechyd yn rhagfynegu y dydd blin, eto pan ddaeth nid oeddym yn barod iddo. Awgrymir nifer o gyfnewidiadau gan yr amgylchiad hwn. Ni fydd Broniestyn na'r Hen Dy Cwrdd yn hollol yr un fath eto. Rhyfedd a dyrys yw bywyd lawer tro. Digwydd rhyw amgylchiad, a chyfnewidir holl gwrs ein bywyd. Ni fydd pethau eto fel y buont.

Ond er y golled a gawsom mae adgofion melys gennym o'r hyn a fu, adgofion a all felysu'r gofid chwerw a blin, a cheisiwn nodi rhyw dri o honynt gan adael y lleill heb gyffwrdd a hwynt, oherwydd fel y dywed y bardd Seisneg—

"*Like precious wines, their taste they lose, exposed to open air.*"

Ni wnaf ond crybwyll am dano fel cyfaill, yn ei gartref ac yn y gwasanaeth. Fe lanwodd yr enw cyfaill mewn ystyr wirioneddol. Safai ef yn ffyddlon pan fyddai eraill wedi cefnu. Fe allasem ddibynnu arno bob amser. Pe cyfodai rhyw anhawster, ar unrhyw adeg, ato ef y byddem yn mynd am gyfarwyddyd a chymorth, a sicr fyddem o gael gwrandawiad, cydymdeimlad a help.

Ni chawsid dim o'r meddal yn ei gyfeillgarwch, dim gweniaith, ond yn hytrach cynghor doeth a synwyr cyffredin. Pe ar unrhyw bryd y rhoddai ei feirniadaeth, yr amcan mewn golwg fyddai i helpu, i wella pethau ac i gefnogi'r gwaith da. Nid pwys beth a fyddai'r mater; nid pwys beth a fyddai'r cais, pe yn ei allu fe fyddai yn ei wneud. Nid oes eisiau dadleu gydag ef parthed unrhyw achos da, parod ydoedd bob amser a'i help a'i gynnorthwy. Hawdd iawn fyddai'r gwaith o nodi engreifftiau o hyn.

Melys iawn oedd mynd am dro gydag ef i'r Parc, ac ar bob adeg fe fyddai ganddo rywbeth i awgrymu er lles a budd yr hwn oedd yn ei gwmni. Byddai'r daith a'r ymgom gydag ef felly yn ysprydoliaeth ac yn iechyd adnewyddol.

Yn ei gartref, yn ei fyfyrgell ymhlith ei bapurau a'i lyfrau yr oedd yn ei gylch iawn. Er efallai yn brysur gyda'i ysgrifbin gosodai bobpeth o'r neilldu i groesawu'r ymwelydd. Dechreua'r ymddiddan gyda chwestiynau'r dydd neu ryw bwnc o ddiddordeb lleol, ond ni fyddai yn hir gyda'r pethau hyn, oherwydd ei ddiddordeb mwyaf ydoedd cael hanes am yr Hen Dy Cwrdd a'r aelodau. Yr oedd yn foddhaus bob amser i glywed unrhyw newydd da am danynt, ac yr oedd wrth ei fodd i glywed am lwyddiant yr achos a garai gymaint.

Eto, yr oedd ei lyfrau bob amser at wasanaeth unrhyw un a ddeuai i ofyn am ei help, neu i chwilio am wybodaeth. Nid oedd eisieu ond

awgrymu rhyw destun, ac ar unwaith fe fyddai'r gyfrol angenrheidiol yn llaw'r ymwelydd i fynd gartref a hi i'w darllen. Yr oedd drws agored ym Mroniestyn i bob chwiliwr o'r fath, a phwy a ŵyr faint ei gymwynasgarwch yn y cyfeiriad hwn?

Yn y gwasanaeth. Os am ei weled yn ei fan goreu, rhaid oedd ei weled mewn gwasanaeth ar fore Sul Cymundeb. Ni all unrhyw ddesgrifiad mewn geiriau gyfleu'r argraff o'r fath wasanaeth. Nid oedd yno ddim rhodres, dim hyawdledd, ond gwir gymundeb a ddygai argyhoeddiad a heddwch i galon y rhai oedd yn bresennol. Teimlwyd dro ar ol tro eneiniad y cymundeb. Ni anghofir hyn gan y rhai a gawsant y fraint o fod yn bresennol.

Yr oedd ei holl fywyd yn gysylltiedig a'r weinidogaeth, a threuliodd ei fywyd i hyrwyddo'r gwaith da. Fe fydd yr Hen Dy Cwrdd a'r Hybarch R. J. Jones wedi eu cysylltu am byth, oherwydd ni allwn feddwl am un o honynt heb feddwl am y llall. Wedi iddo ymddiswyddo ni fu neb yn ffyddlonach nag ef yn y gwasanaeth, ac yr oedd ei 'Amen' yn gosod diweddglo ar waith y dydd. Ceir bylchau mawr yn yr Hen Dy Cwrdd yn y dyddiau hyn, a'n dymuniad ydyw ar i'r bobl ieuanc ddyfod i'w llanw hwynt.

"Like the winds of the sea are the ways of Fate,
As we journey along through life;
'Tis the set of the soul that decides its goal,
And not the calm or the strife."

E. R. D.

R. J. J.

Pan welais R. J. J. gyntaf erioed, ryw chwarter canrif yn ol, yr oedd yn tynnu ar ei oed. Gwr bach sionc, o gorff eiddil, a dau lygad byw yn disgleirio tu ol i'w spectol; tebig iawn i'r hen gymeriad annwyl hwnnw o gread Anatole France, yr hen lyfr-bryf diflin ar lannau'r Seine: anodd peidio cyffelybu R. J. J. i Sylvestre Bonnard. Yr oedd y pregethwr a'r athro yn aros ynddo o hyd; ond y chwilotwr a'r llenor fu byw ynddo hyd y diwedd.

Cefais un wers dda ganddo yn ei gymeriad o athro oedd yn deall egwyddor gwir ddisgyblaeth. Bum mor hyf a gofyn benthyg llyfr ganddo, pan ar ymweliad a Bron Iestyn. Addewais ei ddychwelyd ymhen hyn a hyn o amser; a gosodai'r athro gofnod o'r ffaith mewn dydd-lyfr. Nis gwn a wyf fwy pechadur na'r rhan amlaf o fenthycwyr llyfrau; fodd bynnag, aeth misoedd heibio, a gosodwyd y gyfrol o'r neilltu. Un bore derbyniais nodyn byr a moesgar, gyda phedwar stamp ceiniog, yn gofyn i mi fod garediced a dychwelyd y llyfr, os wedi gorffen ei ddarllen. Os na ddysgais y wers yn drwyadl, nid ar y meistr y bu'r bai!

Flynyddau'n ol arferwn gyfrannu'n dra chyson i golofnau'r YMOFYNYDD. Ryw "getyn garw" r'wy'n bwriadu ail ddarllen yr ysgrifau. Gwn mai ûs yw llawer o honynt; ond efallai y dargenfydd henoed ambell i wenithyn yn eu mysg. Cefais lawer o bleser with eu hysgrifennu. Desgrifiadau oeddynt gan mwyaf o Fro fy Mebyd; y gwithwyneb yn hollol i eiddo Caradog Evans, ac efallai yr un mor feius. Llawer nodyn a gefais oddiwrth R. J. J. yn sôn yn garedig am yr erthyglau syml hyn; ac er fod YR YMOFYNYDD, er ised ei drysorfa, wedi ymddwyn yn anrhydeddus tuag ataf, ni chefais well tâl na chanmoliaeth R. J. J. Yn hyn o beth eto derbyniais wers bwysig; ac os nad wyf bob amser wedi gyrru gair o galondid i ryw lenor ieuanc, yr wyf lawer gwaith wedi bwriadu gwneud! Ni thyf pob blaguryn—mwy na fy hunan—yn bren talgryf—ond mae gair cynnil o ganmoliaeth, yn ei bryd, fel cawod Mai i'r egin egwan.

Ni chlywais ef mewn pulpud erioed; ond darllenais ugeiniau o'i erthyglau, ac yr oeddynt bob amser yn ffres ac yn fyw. Yr oedd yn fyfyriwr ar hyd ei oes, ac yn cadw'n ieuanc ei feddwl hyd y diwedd. 'Roedd ganddo syniad teg am y wybodaeth ddiweddaraf ymhob cyfeiriad.

Pan welais ef ddiweddaf, cymrai ddiddordeb mawr mewn ysprydegaeth, a chawsom ymgom faith ar y pwnc dyrus hwnnw. Ar y pryd yr oedd yn gredwr cryf yn nylanwad ysprydion ar fywyd beunyddiol dyn.

"Os gwnaf fy meddwl i fyny," meddai, "i ddeffro am bump o'r gloch bore fory, yr wyf yn gwneud hynny'n ddiffael. Paham? Onid yr esponiad symlaf o'r ffaith yw fod yna ryw ysprydion neu ysprydion gwasanaethgar yn fy ngwylio ac yn fy neffro ar yr awr benodedig?" Ac yn y blaen. Nis gwn a fu'n ysprydegwr hyd y diwedd. Anodd gennyf gredu nas bu. Ni all neb gredu mewn anfarwoldeb heb fod, yn ystyr orau'r gair, yn ysprydegwr.

Mae'r YMOFYNYDD wedi cael colled dirfawr; mae'r enwad wedi derbyn ergyd drom, ac y mae Cymru benbaladr yn dlotach o farw R. J. J.

Ond beth yw'r tlodi o'i gymharu a chyfoeth ei fywyd? Erys ei waith a'i ysprydoliaeth yn gyfran deg am lawer oes i ddod.

SARNICOL.

Y SANT R. J. JONES.

Bum yng nghymdeithas y diweddar R. J. J. am ddeugain mlynedd. Arferwn alw yn ei dŷ bob nos Sul am agos i 30 o flynyddoedd. Deuai a ganlyn i fy nghof with y fynedfa i Broniestyn—

'Braint, braint,
Yw cael cymdeithas gyda'r saint.'

Cefais y fraint hon ym Mroniestyn. Testun yr ymddiddan bob amser oedd—pregethau, pregethwyr, emynau, emynwyr, yr ysgrythyr, llenyddiaeth a hynafiaeth. Er ei fod yn Undodwr selog, eto nid oedd culni enwadol yn perthyn iddo

Byddai ef a minnau yn mynychu 'Cyfarfodydd Mawr' Bethania (M.C.) ac Ebenezer (A.) am flynyddau. Yn adeg Diwygiad 1904 byddem ein dau yn cydfyned i'r cyfarfodydd yn Brynsion (M.C.) ac Ebenezer, ac yr oeddem yn teimlo rhyw ddylanwad o'r

byd anweledig yn ein meddianu ni yn ogystal ag eraill a dorrent allan i foliannu. Ni fedrem esbonio y dylanwad oedd yn cydfyned ag annerchiadau Evan Roberts. Er na theimlem ni i'r un graddau ag eraill yn y cyfarfodydd hyn, eto ni chlywais R. J. J. yn yngan gair i fychanu y dylanwad yn unrhyw fodd.

Un tro pan oeddid yn trefnu y Cyfieithad Diwygiedig o'r Beibl gofynnais iddo: 'Ai ni ddylid cael cyfieithiad arall, heblaw un llenyddol ac ieithyddol? Ebai ef, 'Pa beth y cyfeiriwch ato?' Atebais, 'Ai nid doeth fyddai gadael allan yr hanes am ladd proffwydi Baal, a lladd gwragedd a phlant yn Ai? a hynny yn ol gair yr Arglwydd. Ni fedrwn i addoli Duw Israel pe credwn ei fod Ef wedi gorchymyn hynny trwy y proffwydi. Ai nid gwell fyddai gadael hanesion fel hyn allan a rhoddi yn eu lle emynau Dr. Watts, Pantycelyn, Iolo Morganwg, a darnau o 'Perfect Life,' (Channing). Ei atebiad oedd, 'Na, cadwer pob sillaf o'r Beibl fel y mae, canys ynddo y ceir y dadblygiad llawnaf o grefydd ysbrydol yn yr holl fyd."

Hawdd fyddai cofnodi yn helaeth, ond ymataliaf, gan ddywedyd mai y fraint a'r fendith fwyaf ddaeth i fy rhan yn feddyliol ac ysbrydol oedd dyfod i gysylltiad mor agos a brawdol a'r sant R. J. J.

Flynyddau yn ol dysgais y pennill canlynol o'i enau. I mi y mae yn portreadu fy nghyfaill yn gywir iawn. Ni wyddai ef, ac ni wn innau pwy yw yr awdur?

'Byw yn ymyl byd tragwyddol
'Roedd ei enaid yn barhaus;
Naws y nef oedd ar ei ysprryd,
Miwsig nefoedd yn ei lais;
Megis cragen fach yn murmur
Cyfrinachau tonnau pell;
Byth murmura'i enaid yntau
Am gyfrinach gwlad sydd well.'

Un o ragorolion ein hoes oedd R. J. J., a bydd dylanwad ei fywyd pur, ei eiriau caredig, a'i gynghorion difrif-ddwys yn aros ynof fi, ac yng nghalonau cannoedd o efrydwyr y Trecynon Seminary, ac aelodau yr Hen Dy Cwrdd, yn ogystal a phawb a ddaethant i gysylltiad personol ag ef.

Bendithiwyd ef ag ymgeledd gymwys yn Mrs. Anne Jones, yr hon aeth tu fewn i'r llen flynyddoedd o'i flaen ef. Cefais lawer o'i chymdeithas ddyrchafol hi, a'i frawd Mr. David Jones. Gwag i mi ydyw Broniestyn hebddynt hwy. Bendithied yr Arglwydd ei dair merch a'i fab pa rai a fuont mor dirion o honno hyd ei arwyl.

IOAN GRUFFYDD,
9 Brynhyfryd, Aberdare.
Ysgol Comin (gynt.)

YR HYBARCH R. J. JONES—YR ATHRO.

Unigolyn oedd yr Hybarch Rhys Jenkin Jones, M.A., Bron Iestyn, Aberdar. O 1835—1924, y mae gan hanes gyfrif am gyfnewidiadau fyrdd. Yn 1835, lle bach cwbl ddinod oedd Aberdar. Plentyn yn deffro er hynny oedd. Un o blant Aberdar oedd Mr. Jones. "Jones yr Hen Dy Cwrdd" oedd un o bethau byth i fod yn Aberdar. Delai ac elai pobl, aros wnelai ef. Iddo ef yr oedd mwy yn Aberdar nag i lawer. Ond fel Athro y disgyn yn hanes Aberdar, fel un o'i meibion hynotaf. Chwilier Cymru, ac ni cheir tebyg "Jones yr Hen Dy

Cwrdd." Cyfyngaf fy sylwadieth i'r Ysgol, yr Athro, a'r Disgyblion, fel disgybl.

Michael Jones o'r Bala soniai yn ddigrif am ddau fath ar grefydd, otherwydd gweled Wesle a'i sel, efallai, yn fwy na'i wybodaeth. Glynai y brawd wrth y ty, er fod y frawdoliaeth wedi gwywo. Gwelai'r hen ddoethor fod crefydd y ci a chrefydd y gath. Gwyddis am y ci taw wrth y person y glŷn; ond am y gath, glŷn hi cyn dynned a hynny wrth y ty. Craffer ar y werin a gwelir fod dal ar athroniaeth y Bonwr Michael Jones Tair ysgol feddai Trecynon—Ysgol yr Eglwys, Ysgol y Comin, ac Ysgol Jones Felly yr enwai y werin yr Ysgolion. Ysgol y person oedd Ysgol Jones—felly dyfarnodd y werin. Synnwyd fi yn gynnar yn yr 80's, gan i mi ddarganfod fod y fath sefydliad a'r Trecynon Seminary. Hoffwn rhan Gymraeg yr enw. Yr un modd y ceisiai'r Bwrdd enwi Ysgol Comin yn Park Board School. Bu odid-oced dyn a Dan Isaac Davies yn ysgolfeistr Ysgol Comin, ac eraill ar ei ol, ond pery i'r werin yn Ysgol Comin. Pi werin a'r disgyblion, Ysgol Jones oedd Ysgol Jones, a neb na dim arall. Llety syml, hynod ddiadduin, dystiai i fodolaeth Puritaniaid yn y fro. Mor wahanol ydyw llety Awdurdod Addysg heddyw i ddisgyblion Festri yr Hen Dy Cwrdd oedd Ysgol Jones—mor llwm ei gwedd! Yn Alma Street pwy na chredai fod yna fwriad iddi fod yn guddiedig? Tra y saif yr Hen Dy Cwrdd ar safle amlwg, yn yr encilion yr oedd yr Ysgoldy. Adeilad o'r un cymeriad yn hollol a chaws y medd sir neillduol enw am dano; dyna oedd heb braidd ddim ynddo. Yn y cyntedd yr oedd cafn carreg, naddwyd a llaw a gain saer maen, o garreg fiodorol. Ni ddynodwyd hwn a diweddarwch yr "hot and cold," dim ond y "cold" cyntefig. Ar y mur, ar y chwith, yr oedd rhesi o fachau haiarn du, lle yr hongiem hetiau, capau, cotau a gwlawlenni. Y peth cyntaf welai dyn yn yr Ysgoldy oedd tan-gist y crwban *(tortoise)* Gwelsech ddesc, a'r ystol hirgoes, a rhesi o'r descau, y rhai mwyaf syml eu cyllun a'u gwneuthuriad a welsoch erioed A hon oedd Ysgol Jones, neu y Trecynon Seminary, fel y cofnodem hi yn y llyfrau. Enw syml oedd John Jones, ond ar ol ychwanegu Trecynon Seminary, deallech fod John Jones yn rhywun. Yma y dechreuai rhai ddringo ysgol dysg; eraill ddelent yma o'r Ysgol Elfennol ar ol talari yn safon yr "ex-six," neu fel yr enwai gwerin ef yn gywir, "Standard Seven." Cawsech yma hefyd ddosparth arall o ddisgyblion, sef bechgyn gefnasant ar orchwyl gan wynebu ar y Weinidogaeth Grefyddol. Hefyd cawsech y disgyblion yn fechgyn a merched. Er mwyn symledd, enwai un difynydd, nid anenwog, y disgyblion yn *have-beens* a *comings*. Meibion Lefi oedd yr *have-beens*, a phlant y byd oedd y *comings*. Gwelir felly i'r diweddar Athro gael ei brofi yn dra llwyr, fel un a gofal cynifer, ac amryw ddoniau. Peth hanes mwyach ydyw y cwbl. Pwy oedd Jones? John Jones, ei dad, a welodd angen yr ardal, a'r mab fu wiw ganddo gyfoethogi bendith ei dad. Dyn rhyfedd oedd yr Athro; ddymchwelodd ddelw traddodiad ac a'i gwelodd yn sarn. Chwi gofiwch y ddiarheb am broffwyd yn ei ddinas ei hun. Yn hyn bu'n Abraham o *iconoclast* — maluriodd ddelwau y tadau. Yn Aberdar y ganwyd ef; yn Aberdar y magwyd ef; yn Aberdar y bu fyw; yn Aberdar y bu farw. Ni bu'n ddinod hefyd. Safai yn uchel ar binacl parch pob un feddai grèbwyll allai yn deilwng dafoli teilyngdod. Cydnabyddid Mr. Jones yr Hen Dy Cwrdd yn ddyn fel Athro a Boneddwr. Gwireddodd yn ei fywyd eiriau difinydd unig Patmos, "yr hwn sydd yn gorchfygu a etifedda bob peth." Trech deddf nag eiddo y Mediaid a'r Persiaid ydyw. Pwy broffwydai y gwelai yr Athro saith deg o flynyddoedd? Eto fe welodd flynydd-

oedd lawer — bron ugain — dros y saith deg. John Jones oedd ganwyll yn llosgi, a'r mab fu ofalus i gadw y goleu i oleuo. Pwy all ddirnad mesur llafur yr Athro? Athro o wirfodd oedd Mr. Jones, ac oni welem ynddo y gwahaniaeth rhwng y bugail da a'r gwas cyflog? Oni ddiflanna y dieth fel tarth y bore, a hi yn waed dynol? Ond am beth? Pwy mwy dynol na ni lanciau? Tosturiem yn fawr wrth yr Athro; elem adref yn llawn tosturi wrth feddwl am waeledd ei ddiaearol dy o'r babell hon. Gwelsom yn yr Ysgol berffeithio nerth mewn gwendid.

Dyna gydmar, hefyd, gafodd yn ei briod! Yr oedd Jones yr Hen Dy Cwrdd yn fwy am ei bod hi gymaint. Hi a'i chwaer fuont Aaron a Hur yn dal breichiau Moses. Cafodd gynorthwywyr da yn nydd ei ing a'i drallod—ymhlith eraill, cafwyd Hathren. Tafed yr Arglwydd iddynt, bob un. Trwy y cwbl, dyfal anfarwoli ei hun oedd yr Athro. Tueddir un i chwerthin wrth feddwl am ymdrechion awdurdodau addysg heddyw. "Teachers' Rest"! nid oedd hyn yn hanes yr Athro. Gwaith oedd bywyd yr Athro. Pwy erioed fu a mwy angen gorffwys arno? Iddo ef cyfrifai saib yn rhywbeth. Os na feddai nerth, meddai dueddfryd arddeirchog i fod yn ddyfal; â gwydnwch, hernai bob peth. "Yr hwn sydd yn gorchfygu" oedd. Credaf i lawer o'i ddisgyblion etifeddu rhai o rinweddau yr Athro, gan fod amryw ohonynt wedi cyrhaedd safleoedd pwysig ac urddasol yn y byd a'r eglwys. Rhannai ei waith yn naturiol i ddau ddosparth amlwg—Meibion Lefi a phlant y byd. Bu'n gyfaill trylwyr i Ymneilltuaeth Cymru. Bu ambell offeiriad dan addysg yn Ysgol Jones, ond prin oedd y cyfryw. Dichon nad aeth llai nifer o un plwyf nag Aberdar i weinidogaeth yr Hen Fam. Fu neb yn gâr mwy i weinidogaeth Cymru na'r Athro. Hanner tâl geisiai gan y sawl wynebai ar y Weinidogaeth — ni chawsai bob amser yr hanner. Wrth fynd heibio "Ingratitude" yn "As you like it," dywedai wrthym y deallem rhyw ddydd yn well beth olygai "Ingratitude," a synnem gymaint peth bob dydd ac oes ydyw y gofyniad,—"pa le mae y naw." O'i ddau tu, Plant Lefi a Phlant y Byd, gwybu am ddiffyg parch i'r gorchymyn apostolaidd, "na fyddwch yn nyled neb o ddim."

Meddai allu mawr i hoelio meddwl disgybl ar bwnc. Arfer a chyfrif am dano oedd y tro hwnnw yn y Parc—paradwys wych Aberdar—ac y mae ar gael yn y naw deg namyn un. Cofiaf yn dda un bore ei weled yn dod i mewn a blodeuyn melyn. Dododd ef yn ofalus ar y desc. Ymhen amser, gwelem y blodeuyn yn ei law ddyrchafedig; gwyddem fod neges gan y blodeuyn, cyn ei ddodi ar y desc. Rhoddodd i bob un gyfleustra i adnabod y blodeuyn. Ceisiai wybod gan bob un pa flodeuyn oedd; tystiodd naw o bob deg mai dant y llew oedd. Dan wenu, dywedodd, "Bydd gennych, rhyw ddydd, achos i amheu yn fawr, farn gwerin oherwydd cyfeiliornad y mwyafrif. Tystiodd naw o bob deg o honoch mai dant y llew oedd, a rhyw ddegwm o honoch amheuai, gan betruso. Degwm o honoch, cyn ateb, feddyliai, 'Nid dant y llew ydyw.'" Er syllu llawer, a gweled o honom arwyddion gobaith am ddail am goes y blodeuyn, ni chofiodd un o honom pa flodeuyn oedd. "Troed yr ebol," meddai. "Mor debyg i ambell ddyn ifanc welodd y byd; blodeua, fel y gwelwch, yn ogoneddus, yna deilia, a hyd dranc hanes ei fywyd ydyw dim ond y dail." Pwysleisiai ar graffter; mynwch weled bob peth, gan gofio am y dosbarth a llygaid ganddynt ond ni welant. Un o lawer ydyw troed yr ebol o'r modd yr hoeliai sylw ei ddisgyblion. Yn ei ddarlithiau, gofalai na chollem ddim trwy ddiffyg sylw.

I blant y byd wynebent ar fywyd o wasanaeth tu allan i'r Eglwys yn

y byd mawr, yr oedd y Ffrangeg a'r Lladin yn wasanaethgar. I feibion Lefi, broydd brasach yr ieithoedd meirw borent hwy, sef Lladin a Groeg. Cymwynaswyr mawr fu'r tad a'r mab yn Aberdar. Nid oedd yn Aberdar ddrws i ymgeiswyr am swyddi a choleg yn borth iddynt, ond Ysgol Jones. Tom Ellis (coffa da iddo) welai yr angen am le i rai mewn oed garent ddysg. Gobaith gwan welir am hyn; eto rhagwelodd John Jones hyn. Arwyddair John Jones oedd debyg i un Mari Jones a'r Beibl. Addysg i bawb chwennychai y Jonesiaid. Lle yr amlhaodd John Jones y rhagor amlhaodd y mab, Rhys Jenkin Jones.

Fe fydd cof gan bob disgybl am bwysigrwydd meddu hobi. Gwyddis am Erthygl xiv o'r Deugain Namyn Un Erthygl Eglwys Loegr, "am weithredoedd dros ben a orchymynwyd." Credwn y byddai'r Athro yn dueddol i gymeradwyo Eglwys Rhufain yma gan ei serch at hobi. Onid oedd Paul, apostol mawr y cenhedloedd, yn wneuthurwr pebyll? Ni fethodd erioed a phwysleisio *supererogation* yn hobi. Fyddai yr un disgybl aeth dan addysg Jones yr Hen Dy Cwidd yn *man made of money*, neu y creadur ddarlunia y Salmydd fel "y rhai y mae eu rhan yn y bywyd yma," heb ei rybuddio yn ddwys rhag y fath drychineb. Iddo ef, yr oedd pob dyn i fod gymaint yn fwy na'i alwedigaeth. Da i ni fuasai cael hil y Jonesiaid yn gyfarwyddwyr Addysg Cymru, yn lle'r edlych elwir yn *Central Welsh Board*

Gyr y meddwl am yr Athro, heddyw, lawer disgybl i hen noddfa y Cymry da—y Gair. Oni esboniodd i ni yn eglur feddwl gosodiad ymddangosiadol anghyson yr Athro Mawr,—"I'r hwn y mae ganddo y rhoddir iddo, ond oddiar yr hwn nid oes ganddo y dygir oddi arno, ie, yr hyn sydd ganddo." Haedda neb y dalent os ei chladdu wna Pwy erioed wnaeth fwy o leied? Tystia yr wyth deg a naw, hyotled a dim, wirionedd yr athroniaeth. Câr y cyson a'r ufudd ydyw anian. Beiddiwn honni y byddai mwyafrif mawr dynoliaeth o bobl eiddiled a phrined o iechyd a'r Athro yn ddim ond dilynwyr diymadferth ar gymdeithas. Mae ei gofio yn ffynhonell o gysur ac anogaeth gref i'r bobl na waddolwyd yn fawr a chryfder ac iechyd. Llawer tro pan gwympai meibion Anac y fro y dywedodd, "ie, dyna fe, fe wastraffodd bron ddeg cymaint ag a gefais i; na, nid eiddo y cryf, nid eiddo y cyflym, ydyw y goron." Iddo ef yn wir y rhoddwyd.

Pwy ohonom na welodd yn yr Athro "y berth yn llosgi, ond heb ei difa"? Llosgodd neb yn ddyfalach—llosgi wnelai, ac nid difa. Pregeth ar destun cyfrin anfarwoldeb a thragwyddoldeb oedd. Ni fu dyn erioed yn well eglureb yn ei berson o gyfriniaeth y berth yn llosgi na'r Athro.

Cofiwn ef ddydd ei ben blwydd (Medi 17). Yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, am yr 17eg o'r mis, a'r Brynhawnol Weddi, cewch y Salm lxxxix. Priodwyd yr Athro a'r Salm yn fy meddwl—bob amser y gwelwn y Salm, cofiwn am yr Athro. Boreu yr 17eg, ei ben blwydd, pe cyfarfyddwn ag ef, siglai law, a dywedai, "Y Trugareddau." Fel plentyn da dysgasai y wers yn ardderchog, a theimlwn swyn y mynegiant yn gwella, a dywedai ddwywaith, "Y Trugareddau." I addurno y mynegiant daeth y perlyn ddisgleiriai yng nghil y llygad eofned fel y diangai. Ie, "Trugarog, trugarog iawn yw Efe." Urddas y bywyd oedd diolchgarwch. Cynhaliaeth anfarwoldeb yw diolchgarwch. "Elw mawr yw duwioldeb gyda boddlonrwydd." Yn ddios, tywysen lawn addfed oedd.

"Eu henwau'n perarogli sydd,
A'u hun mor beraidd yw."

IWAN GOCH.

PREGETH GOFFA.

Traddodwyd yn yr Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, yng Ngwasanaeth Coffa y diweddar Barch. R. J. Jones, Tach. 9, 1924, gan y Gweinidog, y Parch. E. R. Dennis.

"Eich tadau, pa le y maent hwy? a'r proffwydi, ydynt hwy yn fyw byth?"—Secharia 1 : 5.

Yr wyf wedi dewis y testun hwn oherwydd ei gysylltiadau a'r Hen-Dy-Cwrdd. O edrych ar y gareg sydd uwchben y drws fe welir yr ail-adeiladwyd yr Hen-Dy-Cwrdd, yn 1862. Testun y Parch. John Jones, yn y gwasanaeth olaf a gynhaliwyd yn yr hen gapel ydoedd yr un sydd gennym heno. Dyma'r hyn a ddywedir am y gwasanaeth hwnnw :—'Noson sobr oedd, ac yn ddiameu fe aeth yr amgylchiad a'r testun adref at galon llawer. Meddylier, yr oedd yno aml un wedi arfer cyrchu i'r addoliad yn yr hen gapel am lawer o flynyddau, fel yr oedd rhieni rhai o honynt wedi gwneud o'u blaen. Yr oedd pob careg yn anwyl ganddynt. Nid rhyfedd eu bod yn teimlo'n drist yn wyneb diflaniad gwrthrych oedd yn anwyl ganddynt am lawer rheswm. Gadawent eu hen gartref—cartref crefyddol llawer o flynyddau. Teimlent na allent byth fod yn gartrefol yn y capel newydd. Nid rhyfedd. Ond yr oedd y capel yn hen, ac mewn ystyr yn beryglus, fel mai goreu yng ngolwg pawb oedd ei gael i lawr i roi lle i adeilad newydd mwy diogel."

Yn ein hanes ni heno, nid ymadael a hen gapel a wynebu ar un newydd yr ydym, ond wedi gadael un cyfnod i wynebu ar gyfnod newydd a dieithr. Tra'r oedd yr Hybarch R. J. Jones genym, teimlem yn ddiogel. Yr oedd lle genym i nesu hwnt ymhob anhawster. Yr oedd ei wybodaeth, ei brofiad a'i gydymdeimlad yn gysur, yn help ac yn ddiogelwch inni ar bob achlysur. Bellach, bydd yn rhaid inni frwydro heb ei gymhorth ef, yn yr ystyr weledig o bethau. Mae'r gwaith wedi disgyn yn awr ar ein hysgwyddau ni, a'r cwestiwn pwysig yw ; a ydym yn deilwng o'r pethau hyn?

Y testun yn y gwasanaeth olaf yn yr hen gapel ydoedd—'Eich tadau, pa le y maent hwy? a'r proffwydi, ydynt hwy yn fyw byth'? Y tro nesaf, y daeth y testun hwn i sylw ydoedd y Sul olaf yn y flwyddyn 1863. Gwasanaeth coffa oedd yma'r noson honno, fel sydd yma heno. Gwasanaeth coffa i'r hen weinidog, y diweddar Barch. John Jones. Un flynedd a thriugain yn ol, i'r Sul olaf o'r flwyddyn y bu gwasanaeth coffa i weinidog o'r Hen Dy Cwrdd, yma o'r blaen. Nid oes braidd eisiau nodi fod llawer o gyfnewidiadau wedi digwydd oddiar yr amser hynny. Bu farw y Parch. John Jones ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 19, ac fe'i claddwyd ar ddydd Mercher (Rhag. 23, 1863) ; bu farw'r Hybarch. R. J. Jones, ar ddydd Mercher (Hyd. 15, 1924), ac fe'i claddwyd ar ddydd Sadwrn (Hyd. 18), a rhyngddynt dyna'r wythnos yn llawn ; a saif dydd Sadwrn a dydd Mercher yn ddyddiau pwysig yn hanes y teulu. Yn y gwasanaeth coffa yn 1863, y pregethwr ydoedd y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, a'i destun ydoedd—'Eich tadau, pa le y maent hwy? a'r proffwydi, ydynt hwy yn fyw byth?' A dyma ni heno Tach. 9, 1924, yn dod a'r un testun i sylw. Hwn oedd y testun yn y gwasanaeth olaf a gynhaliwyd yn yr hen gapel ; hwn oedd y testun yng ngwasanaeth coffa y diweddar Barch. John Jones,

a phriodol iddo fod yn destun yng ngwasanaeth coffa y diweddar Hybarch R. J. Jones, ac felly dyna'r cylch wedi ei orffen. Dyna gysylltiadau'r testun hwn a'r Hen Dy Cwrdd. Mae genyf un peth arall i'w nodi, a hwnw ydyw, yr hyn ddywedodd y diweddar Hybarch John Davies, Alltyplaca, wrthyf. Un o'r troion diweddaf y bum yn siarad ag ef, dyma sylwedd o'r hyn a ddywedodd wrthyf, mewn llais crynedig :—'Yr wyf am i chwi gofio un peth ; os digwydd rhywbeth i'm hen gyfaill ym Mroniestyn o mlaen i, cofiwch yr wyf am bregethu y bregeth angladdol.' Ychydig feddyliais i y pryd hyny y deuai'r gwaith pruddaidd hwn i'm rhan i. Ni wn, beth a fyddai ei destun ef ; ni wn, beth a fyddai ei bregeth, ond hyn a wn i, fe fyddai'r Parch. John Davies yn llawer mwy teilwng o'r gwaith, ac o edrych yn ol dros ychydig flynyddoedd yn unig, teimlir dylanwad y cyfnewidiadau a fu

Meddylier am rai o'r tadau perthynol i'r blynyddoedd diweddaf hyn, ac fe welir y golled yn eglur :

William James, Llandyssul.
Thomas Thomas, Pantydefaid
Hathren Davies, Cefn.
E. Ceredig Jones, Ciliau.
John Davies, Alltyplaca.
R. J. Jones, Hen Dy Cwrdd.

a theimlwn yn unig iawn heno.

O feddwl am y rhai hyn, ac o edrych i'r dyfodol a'r gwaith a'r cyfrifoldeb sy'n gorffwys arnom, ein teimlad yw—O na fyddem yn fwy teilwng o'r etifeddiaeth gyfoethog hon ! Teimlwn yn unig heno, yn eiddil ac yn wan, a'n gweddi ydyw ar i Dduw y tadau a'r mamau i fod yn Dduw i ninnau'r plant, ac i 'fforddio'n camrau i ben y daith.'

Ac mewn gwasanaeth coffa o'r fath hyn ni allaf wneud yn well na difynnu geiriau o eiddo'r Hybarch R. J. Jones ei hun.

Dyma'r geiriau—'Mewn gwasanaeth coffadwriaethol y mae'n anhawdd gwybod yn iawn beth i'w ddweyd na sut i'w ddweyd. Y mae tristwch yr amgylchiad yn rhwystr i'r galarwyr fod mewn cyflwr meddwl i wrando yn iawn ac i gymeryd golwg briodol ar ddim a ddywedir.

Yn ddiweddarach, daw yn hawddach. Fe ddwg amser ar ei adenydd distaw ryw ddylanwad rhyfedd i liniaru'r clwyf edy marwolaeth ar ei ol, ac i esmwythau'r dolur sydd yn cydfyned a thrallod a galar. Deuir i ddeall hefyd bob yn ychydig fod lle bod gwaeth, a chyda hyny daw'r posiblrwydd i ddiddanwch gael lle Fe glywir y llais distaw yn llefaru—'Nac edrych i'r bedd, ond edrych i'r nefoedd.' Fe geir cipdrem ar ymyl gwyn y cwmwl ; oblegid y mae i'r cwmwl duaf ei ymyl goleu ; a phe gallem ond esgyn i'r ochr hwnt caem weled fod yr ochr hono i gyd yn ddisglaer wyn. Yr oedd Ysgol Jacob yn sefyll ar y llawr a'i phen yn cyrhaeddyd hyd y nefoedd, ac angylion Duw yn dringo ac yn disgyn ar hyddi, ac wele yr Arglwydd yn sefyll arni. A gawn ni lincio ein cadwyn wrth y gallu anweledig hwn?' Gwyddom hyn sydd oreu, ond eto, mynega'r bardd ein teimlad yn y geiriau hyny—

'O for the touch of a vanished hand,
And the sound of the voice that is still.'

Dyna yw teimlad y natur ddynol pan yn y storom, ac anodd ydyw ein cael i edrych hwnt i'r cwmwl du. Ond cofier hefyd, o'r stormydd ceir y bendithion goreu. Ac onid hyn ydyw amcan gwasanaeth o'r fath hyn, sef, i geisio bendith o'r profiad garw a'r golled a ddaeth atom.

Nid ein gwaith ni yma fydd nodi rhinweddau Mr. Jones ; na chwaith croniclo'r hyn a wnaeth efe yn ystod ei fywyd diwyd a gwasanaethgar. Fe fyddai hynny yn anghydweddol hollol a'r hyn oedd efe. Mwy i bwrpas lawer fydd ceisio gweled ein cyfrifoldeb a'n gwaith, ac i gysegru ein hunain yn llwyrach i'r achos oedd mor annwyl ganddo ef. Ni fydd y gwasanaeth hwn yn cyrhaedd unrhyw ddiben oni'n ceir ni yn fwy ffyddlon

i'r achos. Neges y gwasanaeth hwn ydyw, ar inni rod yn fwy ffyddlon nag erioed. Fe gollir y cewri ; fe gwymp a'r colofnau, a rhaid wrth rywrai yn eu lle. Onid hyn a fyddai ei apel heno tuag atom ni, pe ond yn gallu clywed ei lais. Apel ar i'r ieuainc lanw'r bylchau ; apel ar i'r aelodau fod yn fwy ffyddlon ; apel atom i gyd i gysegru ein hunain yn llwyrach i wasanaeth Duw a'i deyrnas.

Oni chlywsom ganddo dro ar ol tro, fod eisiau llanw'r seddau gweigion ; fod eisieu mwy o sel ; fod eisieu mwy o ffyddlondeb ; fod eisieu mwy o ysprydy peth byw ? Ac onid ydyw yn llefaru yn fwy croyw heno nag erioed ? Saif yn awr yn un o'r proffwydi, a'i neges yn fyw i'r oesau a ddel. A wrandewir ar y neges heno ? A wrandewir ar yr apel heno ? A atebir yr alwad ? A welir y fendith yn disgyn o'r storom hon ? A gofir ei gynghorion ? A gofir ei neges ? A gofir am ei waith ? Hyn fyddai y gwasanaeth coffa goreu iddo ef, gweld yr achos yn fyw ac yn llwyddianus, a phobun o honom yn fwy ffyddlon nag erioed. A gaiff y cyfle hwn fyned heibio a ninnau'n diystyrru'r neges ? yn troi'n glust-fyddar i'r apel ; yn ddifater yng nghanol dwyster yr amgylchiad hwn ; atebed pob un drosto ei hun.

Ac i'r gwasanaeth hwn ceir dwy agwedd—un yn ddifrifol ac yn ofidus ; y llall, yn hyderus ac yn obeithiol. Ar un llaw ceir yr hiraeth, y siom, y golled, y dagrau ; ar y llaw arall, ceir y neges, yr addewid, y gobaith, a cheir bywyd tragwyddol.

Nid dim ond y golled a geir genym heno, ond ceir bendithion Duw yn eu llawnder yn aros am ddeirbyniad gennym. Nid y bedd yw diweddglo bywyd da, ac ni all angau gyffwrdd a charitor wedi ei lunio yn unol ag egwyddorion teyrnas Dduw. Ac onid hyn ydyw neges y proffwyd Zechariah yn adnod ein testun ? Ateb y mae yma wrthwynebiad o eiddo'r bobl. Rhesymu y maent fod y tadau wedi marw er's amser maith, a beth sydd a fynno'r hen broffwydi a'r genhedlaeth bresenol ? Atebiad y proffwyd yw : gwir y perthyn y tadau a'r proffwydi i'r gorffennol, ond nid felly eiriau a chyfraith Duw. Erys y rhai hyn yn fyw ar hyd yr oesoedd, ac nid oes modd i'w ddifetha. Nid ydyw amser a lle yn cyffwrdd y rhai hyn, ac ni all cynllun dyn atal egwyddorion y deyrnas rhag cyraedd eu hamcan.

Yr hyn fu'n wir gyda'r tadau a'r proffwydi sydd yn wir heddyw. Yr hyn fu'n sail i gymeriad yn y gorffennol sydd yn sail heddyw ; yr hyn oedd yn ddwyfol yn y gorffennol sy'n ddwyfol heddyw hefyd. Ni all amser, ni all dyn, ac ni all unrhyw allu arall gyfnewid y pethau a berthynant i deyrnas Dduw.

Beth ynte yw neges y tadau i ni heddyw ? Nodaf dri pheth yn fyr—

(1) Ffyddlondeb i'r achos ;
(2) Par-had y genadwri ;
(3) Cymeradwyaeth Duw.

(1) Ffyddlondeb i'r achos. Nid ydym heddyw yn ddigon cynefin a hanes yr ymdrech a fu ar ein rhan. Nid oes profiad gennym o'r erlid, y gwarth a'r dioddefaint a brofwyd gan y tadau. Deuwn heddyw i'r gwasanaeth heb berygl, heb ofn, a chredir gennym mai fel hyn y bu pethau yn y gorffennol. Ni wyddom ni ddim am y profiad o geisio addoli mewn gelltydd ac ogofeydd ; ni wyddom ni ddim am garchar, cleddyf a thân oherwydd ffyddlondeb i'r achos. Rhoddwyd ein rhyddid yn etifeddiaeth deg a chyfoethog, a beth a wneir o'r pethau hyn gennym ni ? A ydym yn deilwng o honynt ? a adewir hwynt allan o'n gafael ? ai difater gennym yr ymdrech a fu, y dioddefaint, a'r trysor sydd yn ein meddiant ?

Ni welir y pethau hyn gennym yn eu gogoniant. Mae'r byd a'i bethau wedi ein denu ; difyrwch a phleser wedi trechu arnom ; a difaterwch ac anghrediniaeth wedi caledu ein calonau nes colli ohonom y weledigaeth a'i phrydferthwch. Ond heibio'r pethau hyn daw neges y tadau yn dweyd nad oes bleser dan yr haul

gyffelyb i'r hyn sy'n deillio o ffyddlondeb i'r achos. I'n cysuro, ac i'n helpu saif y cwmwl tystion, ac yn eu plith heddyw ceir rhai sydd yn annwyl iawn gennym.

(2) Parhad y Genadwri. Yr un yw'r neges heno ag ydoedd hi ganrifoedd yn ol. Gwir fod y wisg arni wrdi newid lawer gwaith, ond erys yr egwyddor yr un. Nid oes eisiau arnom ofni y ceir pall ar y pethau hyn. Saif ein bywyd yn ddiogel ar egwyddorion tragywyddol; nid o waith dyn, nid o ddyfais dyn, nid o ddewisiad dyn, ond yn hytrach o greadigaeth Duw.

Fe fydd rhai yn ymfalchio yn hynafiaeth eu hachau; eraill, yn hanes eu teulu; eraill, mewn traddodiad a sefydliadau. Fe ddywed eraill am oedran y mynyddoedd, am oesau haul, ac am barhad y ser, ond nid yw hyn ddim i gydmaru a pharhad y genadwri sydd yn eiddo i ni. Ni cheir ei gogoniant mwyaf yn y gorffennol. Nid ydym eto ond megys ar y trothwy. Mae tragwyddoldeb yn aros hon. O'r tragwyddol y daeth hi yma, a phylu a wna pobpeth daearol yn ymyl hon. 'Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant Ef.'

(3) Cymeradwyaeth Duw. Faint a wneir gennym er mwyn ennill cymeradwyaeth dyn, cymdeithas a'r byd? Ond beth ydyw hyn oll at ennill cymeradwyaeth Duw? Fe fydd un gair o'i eiddo yn well na dim a fedd y byd. Fe a'r byd a'i bethau heibio, a diflannu wna pobpeth daearol, ond y trysor a erys byth fydd cymeradwyaeth Duw.

Sylwer, nid ofni marw, nid ofni'r bedd, nid ofni'r barnwr, nid ofni'r gosb a'r canlyniadau, ond bod ein bywyd y fath nes ennill cymeradwyaeth Duw, a chael mynediad helaeth i mewn i fywyd uwch, gwell a phurach. Ac yn y gymeradwyaeth, cofier, fe geir cyfarfod ac adnabyddiaeth o'r anwyliaid gynt, yn ol y cymhwysder fydd ynom ni i fwynhau eu cwmni. Cymhwyster caritor; Cymhwyster enaid fydd yn cyfrif y pryd hyn oherwydd—

'Un a fo'n iawn ei fywyd—a gedwir
Yn gadarn ei wynfyd;
Ni chil, ni fyn ochelyd
Na dydd barn, na diwedd byd.'

Ar yr ymylon yr ydym eto, ond fe ddaw dydd pan cawn forio ar y cefnfor; cofier yn ol y cymhwysder fydd ynom,

'Hawdd fydd nabod hen wynebau
Wedi croesi niwl y glyn?'

'Eich tadau, pa le y maent hwy? a'r proffwydi, ydynt hwy yn fyw byth?' Amen.

TEYRNGED ODDIWRTH Y PARCH. J. GLYNNE DAVIES, COMBER.

Carem anfon i'r YMOFYNYDD deyrnged fechan o barch i goffadwriaeth y diweddar Barch. R. J. Jones, Aberdâr. Cefais gyfleusdra neillduol i adnabod Mr. Jones yn ystod fy ngweinidogaeth yn yr Hen Dy Cwrdd fel olynydd iddo o 1910 i 1913, a bu yn ystod yr holl dymhor yn gyfaill triylwyr a chynghorwr caredig i mi. Nis anghofiaf ei garedigrwydd mewn adeg pan oedd o'r gwerth mwyaf i mi.

Sul ar ol Sul byddai yn ei le fore a hwyr yn yr Hen Dy Cwrdd. Cymerai *mental note* o wallau y pregethwr ieuanc yn y pwlpud. Yn yr ail gwrdd nos Sul byddai rhyw gyfeiriad yn cael ei wneyd at waith y dydd, ac at y bregeth, gan rai o'r aelodau, a chyn y diwedd cawsem air gan yr henafgwr. Siaradai air o gymeradwyaeth a chalondid mewn perthynas i'r bregeth a'r pregethwr. Dim gair o feirniadu yn y cwrdd hwn—dim son am amherffeithderau a gwallau y bregeth yn ngwydd y bobl.

Bob bore Llun awn i Broniestyn, ac i mewn i'r fyfyrgell at Mr. Jones. Maes o lew cymerai ddarn o bapyr allan ac arno restr o wallau gramadegol ac eraill ganfyddodd ym mhregethau y Sul. Nid oedd dim yn dianc ei feddwl craffus—yr oedd greddf yr ysgolfeistr o hyd yn fyw ynddo—a dyna werthfawr fu ei feirniadaeth i mi. Nis gallaf fesur y daioni dderbyniais oddiwrth gynghorion dydd Llun—yr oll mewn ysbryd tadol a charedig nas anghofiaf byth.

Hyfryd oedd mynd am dro i'r Parc gydag ef, a gwrando arno yn adrodd hanes ardal Aberdar a Threcynon, ac yn enwedig hanes tyfiant y mudiad Anghydffurfiol yn y gymydogaeth. Ond fel cyfaill tyner a charedig i ddyn ieuanc a di-brofiad—un a roddodd i mi ei oreu o'i brofiad a dysgeidiaeth eang a chyfoethog y caraf gofio Mr. Jones tra byddwyf byw.

ER COF AM YR HYBARCH R. J. JONES, M.A.

Crin ddail yr Hydref oedd yn hulio'r fro,
A phorffor fel y gwin yn rhuddo'r dyffryn,
A machlud haul yn euro glesni'r gro
Prynhawn cynhebrwng bonedd myg Broniestyn.

Gwrogaeth Aberdar i'r brodor hen,
A theyrnged hiraeth oedd y ddwys orymdaith,
A wylodd Cymru'n angladd mab ei llên—
Medelwr cun ei meysydd ar ei ymdaith.

Nodiadau'i bin sydd ar ei lyfrau lu,
Ymylon pob tudalen geir yn gwirio;
Caiff Myrddin yn ei gell ei Llyfr Du,
A chanfod ol y llaw a fu'n cywiro.

Pe gallai'i gell, a'i miloedd lyfrau tŷn
Weld hunell laith y llenor gwir gynefin,
Fe wylent hwythau ddagrau'n mhorth y glyn
Tan alar gyda'r dorf oedd yn ei ddilyn.

A blodau atgof daenent dros ei arch
Cyn cychwyn i Facphela o'i lyfrgell,
Ac ni fai neb ddangosai fwy o barch
Wrth gludo'r elor draw i'r fangre dywell.

Pe medrai'r Ysgol Fach ar ben y twyn
Ymsyllu ar ei hathro glew'n mynd heibio,
Pwy fai'n gwarafun hithau i arllwys cwyn
A'i thorf efrydwyr dwys i dorri i wylo.

Yr Hen Dy Cwrdd, a'r pwlpud lle bu'i dad
Yn tynnu'i ddawn i arfer ei homiliau;

Ai tybed i'r Hen Gapel weld y wlad
Am bennaeth llên pryd hyn yn tywallt dagrau.

Mor wag i ieuainc wŷr o lengar fryd
Fydd gweld yr hen lyfrgell a'i chyfrolau,
A'r gwr a'r croeso brwd mewn arall fyd,
A nebun yno mwy yn hael ar lyfrau

Froniestyn hoff! cheir ond dy gyfarch mwy,
A rhoddi amnaid ddwys wrth gyrchu heibio,
Mynwesau llawer macwy sydd tan glwy ;
Am nad yw'r athro yn ei stafell heno.

O'i ol mae gwagle'n nghylchoedd llên ei wlad,
A rhwyg anadfer yn areithfa'i hen dud ;
Cadfridog gollwyd draw o frwydrau'r gâd,
Ei haul aeth lawr o dan ddigwmwl fachlud

Noswylia mewn tangnefedd weithiwr mawr,
Mae'th golofn di ar lên 'YR YMOFYNYDD' ;
Cest weithian weled draw ddisgleiriach gwawr—
Datguddiad Duw a roes i'w wir ladmerydd.

PARCWYSON, Aberdar.

Y DIWEDDAR BARCH. R. J. JONES, M.A.

A, noeth lawr profedigaeth lem—
marw fu
Un mor fawr a garem ;
Yn ei dro'n hen gan ei drem,
Yn wylaidd mwy ni welem.

R. J. Jones mawr y son sydd—a
Am farw'r diwynydd ; [hiraeth
Heblaw ffurf 'roedd pobl a'u ffydd
Yng nghalon yr efengylydd.

Yn ddyddiol bu'n ymddiddan—a'i
Mewn eilfyd yn drigfan ; elfen
Wedi ei glyd ac aelwyd glan,
Aeth adre mewn gwth o oedran.

Nid diogyn ar adegau—ond astud
Ystwyth ei feddyliau ;
Yn ei fryd o hyd yn hau
Undodiaeth ei hen dadau.

'E laniodd i'r goleuni—ie, clywch
O'r pwll glo ddwseni ;
I uddas trwy hyfforddi,
A'i wynfyd oedd, "fy nefaid i."

O goleg ein hen bugailydd—daeth
Doeth allu'r athronydd ; [allan
Arwyddnod ei benod beunydd,
At ei Dduw, tra eto'n ddydd.

Ei addysg, i rai, roddai'n rhad—hael
I d'lodion pob enwad ; [ydoedd
Yn abl wr yn wyneb ei wlad,
A chyfaill pob dyrchafiad.

Bu'n orfwyn hyd ben ei yrfa—a'i
Oedd wynach na'r eira ; [enaid
Haeddai lwys tragwyddol ha'
Ddiderfyn hedd y dyrfa.

Gobaith wnel i'n ymdawelu—yn
ddwysgall
Gan ddisgwyl i'r teulu ;
Eto gwidd a'u rhiaint gu,
Yn oesol gwmni Iesu.

W. EDWARDS
(Peirianydd),
Tylorstown,
Rhondda.

PRIODASAU.

TACHWEDD 13eg, yng Nghapel y Graig, Castell Newydd Emlyn, gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. R. Morris, Penybont, Mr. Jenkin Samuel Davies, Post Office, Llandyssul, mab y diweddar Mr. a Mrs. Davies, Post Office, Felinfach, â Miss Doris Jones, merch y diweddar Mr. D. L. Jones a Mrs. Jones, Cilgwyn Hotel, Llandyssul. Gwenau'r nef fyddo ar yr uniad.

TACHWEDD 15fed, yng Nghapel Alltyblacca, gan y Parch. Lewis Williams, a cher bron y cofrestrydd, Mr. D. Evans, Llanybyther, unwyd mewn glân briodas Mr. James Phillip Thomas, mab Mr. James Thomas, Y Felin, Gwyddgrug, â Miss Hannah Rachel Evans, merch Mr. a Mrs. Evans, Pantygogledd, Llanllwni. Yn ddedwydd a llwyddianus y byddont.

MARWGOFION.

HYDREF 5, yn 20 oed, Gwladys Hares, Heol y Graig, Trebanos. Prin y dyry awen ei chymorth i gofnodi marwolaeth merch ieuanc. Teimlwn, heb wybod paham, yn gartrefol ym mhorth ymadawiad person yr henoed. Gorfodir ni, weithiau, i ymfalchio o farwolaeth hwn a'r llall, yn herwydd rhai pethau ddigwyddant fod wedi bod yn achos i wau eu bywyd—bywyd nad oes gan holl alluoedd dyn fymryn o bwer i'w droi na'i gyfnewid. Nid oes rith o amheuaeth nad yw Gwladys, i'n golwg ni, wedi elwa yn hyn o beth, sef croesi i'r Ganaan draw cyn gweled ohoni ofidiau a thrafferthion anial dyrus bywyd. Collodd ei thad ychydig flynyddau'n ol, a hynny'n sydyn iawn, a gadawodd ar ei ol weddw a phlant i ymdaro ore y gallent. Cydymdeimlir yn fawr â mam yr ymadawedig yn ei hiraeth dwys ar ol ei hanwyl Gwladys, a dymuna ardal a thref Dduw yn rhwydd iddi hi a'i theulu eto. Claddwyd yr Iau canlynol, with Gellionen. Gwasanaethodd y Parch. D. G. Rees, a chynorthwywyd gan y Parch. L. G. Lewis, Adulam.

HYDREF 15, Josiah, mab i'r diweddar Thomas ac Elizabeth Thomas, gynt o Maesyffynnon Cottage, Felinfach, yn 20 mlwydd oed. Nid oedd yn gryf o ran ei iechyd, a meddyliodd y gwnai y môr lês iddo. Cafodd waith ar y llong "Charlbury," ac wedi tair wythnos o fordaith, a glanio yn Port Said, cyfarfyddodd a damwain trwy syrthio yn y llong, trwy yr hon y collodd ei fywyd. Iau canlynol, claddwyd yng Nghladdfa Brydeinig Port Said, pryd y gwasanaethwyd gan Offeiriad Seisnig, ym mhresenoldeb y *Consul*, ac eraill Collodd Josiah ei rieni pan tua 10 oed, a dygwyd ef i fyny yn ofalus a thyner gan ei fodryb, Margaret Davies, yn y lle uchod. Disgynodd y newydd tost o'i farwolaeth o dan y faith amgylchiadau yn drwm iawn ar y fodryb, y chwaer a'r oll o'r perthynasau. Cynhaliwyd Cyfarfod Coffa iddo ar yr 16eg o Dachwedd, pryd y daeth tyrfa luosog ynghyd i ddangos eu cydymdeimlad. Nerth i ymgynnal dan yr ergyd gaffont oll

HYDREF 31, John Jones, Troedybryn (gynt o Coesyfran), ger Bwlchyfadfa, yn 64 oed. Gadawodd wyth o blant, chwaer, dau frawd, a llawer o berthynasau ereill i wylo ei golli. Dechreuodd waelu rhyw dair mlynedd yn ol, ac o dipyn i beth gafaelodd y dolur yn

fwy tŷn, tra y bu ei fisoedd olaf yn fisoedd o boenau dirfawr. Teimlwn o dan yr amgylchiadau fod marw wedi bod yn elw iddo. Tra'n iach, bu John Jones yn ffyddlon iawn yn yr addoliad yn y Bwlch, ac anfynych y gwelid ei le yn wâg—am flynyddoedd, efe oedd torwr beddau y gynulleidfa. Cyfrifid ef yn weithiwr deheuig, a pherchid ef yn fawr gan y rhai y gweithiai iddynt. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol, ym mynwent Bwlchyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MANION AC HANESION.

PWYLLGOR HYDREF 1924.

Cynhaliwyd yr uchod yn Nghaeronen boie Mercher, Hydref 22, o dan lywyddiaeth y Parch. T. O. Williams, A.C. Yn absenoldeb yr ysgrifennydd gofynwyd i'r Parch. Lewis Williams gymeryd cofnodion y cwrdd. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y pwyllgor blaenorol. Gan nad oedd copi o ewyllys y diweddar Barch. William Rees with law penderfynwyd gohirio ystyried rhai materion ynglyn a Chwmmawrdu hyd y cwrdd nesaf. Datganodd y pwyllgor ei deimlad o golled ar ol y diweddar Barch. Rees Jenkin Jones, A.C., Aberdar, ynghyd a'n gwerthfawrogiad o'i fywyd llafurus a gwasanaethgar, ac ar gynygiad Dr. Griffiths, Aberystwyth, gofynwyd i'r llywydd gyflwyno cydymdeimlad llwyraf y Pwyllgor a'r Gymdeithas i'w blant yn eu galar. Pasiwyd fod y Gymdeithas yn talu treuliau teithio Dr. Griffiths, Aberystwyth, i gyfarfodydd y Gymdeithas. Yn ngwyneb apel daer addawodd y Parch. T. A. Thomas barhau'n Olygydd YR YMOFYNYDD am flwyddyn arall. Erbyn hynny bydd Mr. Thomas wedi ei olygu am chwarter canrif. Penodwyd pwyllgor o bump i edrych fewn i sefyllfa arianol YR YMOFYNYDD, sef y Parchn. T. A. Thomas, T. O. Williams, E. O. Jenkins, Mrs Jones, Garthowen, a Mr. Evan Hughes, Dihewid. Pasiwyd hefyd fod cais yn cael ei wneud i'r Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor a chymdeithasau eraill am gynnorthwy arianol blynyddol tuag at YR YMOFYNYDD. Pasiwyd fod y gymdeithas i dalu treuliau y Parch. T. A. Thomas a Mr. J. Penry Lewis, i Rhydyparc, i gymeryd mesuriadau, &c., o'r capel a'r tir perthynol, er bod mewn safle i gael gweithredoedd ar yr eiddo.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn ein holl Eglwysi fel arfer, ac yn ol yr adroddiadau ddaeth i law, da gennym ddeall eu bod yn para mewn bri. Cwnaed casgliadau bron yn ddieithriad at y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor. Wele restr o'r cyfarfodydd ynghyd a'r pregethwyr :—

Cribyn—Dr. W. Griffiths a'r Parch. T. Arthur Thomas.
Capelygroes—Parch. L. Williams.
Rhydygwin—Parch. T. A. Thomas.
Brondeifi a Chaeronen—Y Gweinidog.
Alltyplaca—Parch. T. A. Thomas.
Ciliau—Parch. T. O. Williams, M.A.
Capelycwm—Parch. T. O. Williams, M.A.
Capelybryn—Parch. E. O. Jenkins.
Pantdefaid a Llandyssul—Parchn. T. O. Williams, M.A., ac E. O. Jenkins.
Llwynrhydowen a Chapelyfadfa—Parch. T. Arthur Thomas.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

Banking Facilities

The Midland Bank, the greatest organisation of its kind in the world, offers a complete banking service through 2,200 branches in Great Britain and Ireland, and the additional advantages of perfect security and finest rates.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE : 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations : Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland ; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland ; The London City and Midland Executor and Trustee Co. Ltd.